ADRODDIAD I'R: **Awdurdod Tân**

DYDDIAD: **24ain o Fedi 2007**

TESTUN: Protocol Personau Coll

CRYNODEB:

Mae Swyddogion wedi bod yn gwerthuso protocol ar y cyd, rhwng Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA), i chwilio am bersonau coll (a ddiffinnir fel pobl sydd ar goll mewn amgylchiadau sy'n gwneud i'r heddlu gredu bod risg i fywyd neu iechyd y person hwnnw, neu unrhyw berson arall).

Bwriedir y protocol hwn i roi fframwaith i luoedd yr heddlu a gwasanaethau tân ac achub, i'w galluogi i ddatblygu gweithdrefnau gweithredu lleol, lle byddai diffoddwyr tân yn cefnogi gweithrediadau'r heddlu wrth chwilio am gategorïau penodol o bersonau coll. Hefyd, bydd y protocol yn rhoi gweithdrefn i luoedd yr heddlu i gael mynediad at gefnogaeth timau Chwilio ac Achub Trefol (USAR) a thimau Chwilio ac Achub Gwasanaeth Tân y Deyrnas Unedig (UKFSSART). Nid yw'r protocol hwn yn effeithio ar leoliad beunyddiol personél tân ac achub wrth achub neu adfer personau clwyfedig neu bersonau wrth risg.

Mae'r protocol yn awgrymu nifer o feysydd ar gyfer lleoli personél y gwasanaeth tân ac achub (FRS) mewn gweithrediadau chwilio ac mae'n cwmpasu:

> Lleoli personél diffodd tân i gynorthwyo gyda gweithrediadau chwilio cyffredinol,
> Defnyddio cyfarpar ar y dŵr,
> Timau chwilio arbenigol (USAR/UKFSSART) a Chŵn Chwilio ac Achub (K9).

Heb os, byddai derbyn y protocol hwn yn gwella galluoedd chwilio Lluoedd Heddlu Dyfed Powys a De Cymru. Yn seiliedig ar weithgarwch diweddar, mae'r nifer o achlysuron lle mae'r protocol hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio'n hynod o isel. Bydd pob achlysur yn ddilys, yn ddigwyddiad sy'n bygwth bywyd, felly byddai pob ymateb i gais yr Heddlu i gynorthwyo wrth chwilio am berson coll yn gwbl unol â rôl yr Awdurdod oddi fewn i'r agenda diogelwch yn y gymuned ehangach.

Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth (SLA) drafft yn atodedig i'r Aelodau.

Ar y 19eg o Orffennaf, fe wnaeth y Bwrdd Perfformiad a Pholisi drafod y protocol yn fanwl, a chytunodd y swyddogion i gefnogi'r protocol, yn amodol i adolygiad o'i effaith ar adnoddau gael ei gynnal ar ôl blwyddyn o'i weithredu.

GOBLYGIADAU:	
RISG WEITHREDOL	Gallai lleoli nifer yn fwy o adnoddau ar gyfer gweithred o chwilio beryglu'r cyflenwad gweithredol.
RISG GYMUNEDOL	Bydd helpu'r Heddlu gyda gweithredoedd o chwilio'n arwain at well gwasanaeth i gymunedau. Buasai'r defnydd o'r tîm USAR a hyfforddwyr cŵn yn gymorth gyda'r gallu hwn.
HYFFORDDIANT	Gallai lleoli adnoddau USAR ar gyfer gweithredoedd chwilio'r Heddlu yn cael ei weld fel cyfle defnyddiol i hyfforddi.
A.D	Lleiaf.
CYLLID	Gallai lleoli nifer yn fwy o adnoddau ar gyfer gweithred o chwilio gael effaith sylweddol, heb ofyn am gymorth gyda chostau digolledu.
T.G/CYF	Dim
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH	Dim
IECHYD A DIOGELWCH	Lleiaf – dylid cynnal asesiadau risg cyn i'r gwaith ddechrau.
CYFREITHIOL	Dim.

ARGYMHELLION:
Gofynnir i'r Aelodau i ystyried y protocol drafft i'w gymeradwyo. Hefyd, gofynnir i'r Aelodau i gefnogi adolygiad o'r protocol hwn mewn blwyddyn, i asesu effaith unrhyw weithgarwch, o fewn y flwyddyn, ar y gyllideb ac ar adnoddau.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN
Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Cymorth y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r Heddlu wrth chwilio am Bersonau Coll. Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Cofnodion y BPPh ar y 19eg o Orffennaf 2007 a'r 31ain o Hydref 2006.

Awdur yr Adroddiad a'i Swydd	Wyn Edwards – Rheolwr Ardal (Pennaeth Argyfyngau Sifil a Gwydnwch)
Rhif ffôn/Estyniad	4428